OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 773 (Cy.65) (C.48)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

*Gwnaed* - - - - *23 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 325(3) a (4) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai ac Adfywio 2008 ac ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 30 Mawrth 2009.

### Cychwyn

**2.** Daw adran 315 (lluoedd arfog: prawf cysylltiad lleol) i rym ar y dyddiad cychwyn mewn perthynas â cheisiadau—

(i) dyrannu llety tai, y mae adran 166 o Ddeddf Tai 1996(**2**) yn gymwys iddynt; neu

(ii) y mae Rhan VII (digartrefedd), fel y'i cymhwysir gan adran 183(1) (cais am gymorth) o'r Ddeddf honno, yn gymwys iddynt,

a wnaed ar y dyddiad cychwyn neu ar ei ôl.

*Jocelyn Davies*
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

23 Mawrth 2009

(**1**) 2008 p.17.
(**2**) 1996 p.52.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r Gorchymyn Cychwyn cyntaf a wnaed o dan Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 mewn perthynas â Chymru.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym adran 315 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ar 30 Mawrth 2009.